

Llywodraeth Cymru
Welsh Government


# Y Grŵp Cyngor Technegol

# Ystyriaethau o ran newid trefniadau ysgolion i ganiatáu mwy o ddysgu wyneb yn wyneb



05 Chwefror 2021





OGL © Hawlfraint y Goron 2020

**Y Grŵp Cyngor Technegol: Ystyriaethau o ran newid trefniadau ysgolion i ganiatáu mwy o ddysgu wyneb yn wyneb**

**5 Chwefror 2021**

## Cynnwys

**Y prif negeseuon** .......... 3
**Y cefndir** .......... 4
**1. Pryd allai fod yna hyblygrwydd i lacio'r cyfyngiadau a pha feini prawf y gellid eu defnyddio?** .......... 5
*Dangosyddion* .......... 5
*Effaith yr amrywiolyn newydd VOC202012/01* .......... 8
*Rhagor o ansicrwydd yn sgil Amrywiolynnau eraill sy'n Peri Pryder* .......... 12
**2. Faint o hyblygrwydd fydd ei angen i agor rhagor ar ysgolion?** .......... 13
**3. Pa fodelau o ran trefniant ysgolion fyddai'n sicrhau cydbwysedd rhwng y risgiau a'r manteision a pha ymyriadau anfferyllol neu fesurau lliniaru ychwanegol fyddai'n ddefnyddiol?** .......... 16

**Y prif negeseuon**

Mae'r nodyn hwn yn ystyried tri phwnc allweddol sy'n berthnasol i newid trefniadau ysgolion i ganiatáu mwy o ddysgu wyneb yn wyneb.

**1. Mae'r nodyn yn ystyried pryd y gallai fod yna hyblygrwydd i lacio'r cyfyngiadau a pha feini prawf y gellid eu defnyddio.** Daw i'r casgliadau canlynol:

- Lefel 5 yw Lefel Rhybudd COVID-19 y DU ers 4 Ionawr 2021, sy'n dynodi bod y risg wirioneddol y gallai'r gwasanaethau gofal iechyd gael eu gorlethu yn parhau. Byddai unrhyw lacio yn debygol o gynyddu'r risg honno tra bo'r DU ar y lefel hon.
- Er mwyn i'r cyfyngiadau gael eu llacio, bydd angen cyfuniad o'r canlynol: niferoedd a chyfraddau is o achosion yn y gymuned; cyfraddau is o brofion positif; sefyllfa resymol yn ein hysbytai a'n hunedau gofal dwys o ran nifer y gwelyau llawn; cyfradd R is nag 1; tystiolaeth bod lefel is y dangosyddion hyn yn gynaliadwy, neu fod modd ymateb yn gyflym i gynnydd yn y dangosyddion hyn drwy ailosod cyfyngiadau.

**2. Mae'r nodyn yn ystyried faint o hyblygrwydd y bydd ei angen i agor rhagor ar ysgolion.** Daw i'r casgliadau canlynol:

- VOC202012/01 yw'r amrywiolyn mwyaf amlwg yng Nghymru erbyn hyn, ac mae yna ansicrwydd o hyd i ba raddau y mae'n haws trosglwyddo'r amrywiolyn hwn, ond mae ein dealltwriaeth ohono yn gwella.
- Mae'r ansicrwydd hwn yn golygu nad oes gennym y dystiolaeth eto i nodi p'un a fyddai agor ysgolion ymhellach ar gyfer dysgu wyneb yn wyneb i bob myfyriwr yn arwain at orlethu gofal iechyd yng Nghymru ar hyn o bryd.
- Byddai lleihau'r pwysau ar wasanaethau'r GIG cyn dechrau gwneud mwy o addysgu wyneb yn wyneb yn ein gwarchod ryw gymaint pe bai gweithgarwch ysgolion yn creu'r amodau i'r amrywiolyn newydd dyfu'n esbonyddol yn y gymdeithas.
- Dylid monitro effeithiau iechyd y rhaglen frechu yn ofalus; os mai marwolaethau a derbyniadau i'r ysbyty yw'r ffactorau sy'n effeithio fwyaf ar lacio'r cyfyngiadau, dylid gweld rhagor o hyblygrwydd wrth i'r pwysau ar y GIG leihau.
- Dylid ystyried yr effaith bosibl ar iechyd tymor hirach mewn perthynas â COVID-19, gan gynnwys 'COVID hir', wrth lacio mesurau.
- Dylid ystyried yn ofalus sut mae amrywiolynnau newydd yn cael eu rheoli o ran iechyd y cyhoedd, a sut maent yn ymddwyn ac yn lledaenu cyn agor ysgolion ar gyfer addysg wyneb yn wyneb.

**3. Mae'r nodyn yn ystyried pa fodelau o ran trefniant ysgolion fyddai'n sicrhau cydbwysedd rhwng y risgiau a'r manteision, a pha ymyriadau anfferyllol neu fesurau lliniaru ychwanegol fyddai'n ddefnyddiol.** Daw i'r casgliadau canlynol:

- Mae cyfraddau'r achosion a gadarnhawyd ymysg plant 11 oed neu iau yng Nghymru bob amser wedi bod yn gymharol is na'r rheini ymysg plant hŷn.
- Mae cyfraddau'r achosion a gadarnhawyd o COVID-19 yn y rhan fwyaf o grwpiau o staff ysgolion yng Nghymru wedi bod yn is nag mewn grwpiau cyfatebol yn y boblogaeth gyffredinol sydd o oedran gweithio, ac yn gyffredinol mae athrawon yng Nghymru a Lloegr wedi bod mewn llai o berygl o farwolaeth yn sgil COVID-19 na'r boblogaeth gyffredinol sydd o oedran gweithio.
- Dylid ystyried ailagor ysgolion yn rhannol ac yn raddol ar gyfer dysgu wyneb yn wyneb gan fod hyn yn debygol o gynyddu'r cyfraddau trosglwyddo yn llai cyflym na'u hailagor yn llawn. Dylid monitro'r cam hwn yn ofalus cyn mynd ati i wneud rhagor o newidiadau.
- Dylid adolygu'r mesurau cyfredol i atal a rheoli'r haint er mwyn ystyried sut i'w cryfhau yng ngoleuni'r ffaith ei bod yn haws trosglwyddo'r amrywiolyn sydd gennym bellach.
- Bydd angen monitro'n ofalus effaith y newidiadau hyn ar lefelau trosglwyddo er mwyn gallu, os oes angen, ailosod y cyfyngiadau yn gyflym.
- Mae angen ystyried yn ofalus y manteision o ran addysg a llesiant a fyddai'n deillio o ailagor ysgolion yn rhannol, fesul cam neu ar adegau gwahanol i grwpiau gwahanol o ddisgyblion.
- Bydd yn bwysig ystyried cyfnod cynllunio hirach ar gyfer newid trefniadau ysgolion, yn enwedig o ran materion cydraddoldeb a chysondeb profiadau a deilliannau addysgol.

## Y cefndir

Symudodd Cymru i lefel rhybudd 4 ar 20 Rhagfyr 2020. Roedd ysgolion uwchradd wedi cau eu drysau ar 11 Rhagfyr. Ar 4 Ionawr 2021, yn dilyn cyngor gan y Gyd-ganolfan Bioddiogelwch a phedwar Prif Swyddog Meddygol y DU, symudodd y DU i'w lefel rhybudd 5 gan fod yna risg wirioneddol y gallai'r GIG, mewn sawl ardal, gael ei orlethu o fewn 21 diwrnod pe na byddai camau yn cael eu cymryd[1]. Yr un diwrnod, cadarnhawyd y byddai pob ysgol yn darparu sesiynau dysgu o bell i bob plentyn, ac eithrio plant agored i niwed a phlant gweithwyr hanfodol, tan o leiaf 18 Ionawr. Ar 8 Ionawr, dywedodd Prif Weinidog Cymru, oni bai bod yna ostyngiad sylweddol yn achosion y coronafeirws cyn yr adolygiad ar 29 Ionawr, y bydd ysgolion Cymru yn parhau â'r model hwn o ddarpariaeth nes hanner tymor mis Chwefror.[2] Yn ôl y ffigurau dros dro diweddaraf, roedd 8.2% o ddisgyblion, ar gyfartaledd, yn

[1] UK Covid-19 alert level methodology: an overview

[2] Datganiad Ysgrifenedig: Ysgolion uwchradd a cholegau Cymru yn symud i ddysgu ar-lein o ddydd Llun 14 Rhagfyr 2020 fel rhan o ymdrech genedlaethol i atal trosglwyddo'r coronafeirws; Datganiad Ysgrifenedig: Cyfyngiadau Lefel Rhybudd Pedwar; Datganiad ar y cyd gan Brif Swyddogion Meddygol

gorfforol bresennol mewn ysgolion yn ystod wythnos 25 Ionawr tan 29 Ionawr, cynnydd o gymharu â chyfartaledd 7.3% yr wythnos flaenorol.[3]


**1. Pryd allai fod yna hyblygrwydd i lacio'r cyfyngiadau a pha feini prawf y gellid eu defnyddio?**

*Dangosyddion*

Mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio pedair lefel rhybudd ar gyfer ymateb y cyhoedd i fygythiad. Mae'r lefelau hyn yn galw am fesurau i reoli lledaeniad y feirws a diogelu iechyd pobl. Mae'r lefel rhybudd bresennol yn adlewyrchu'r dangosyddion allweddol o ran y coronafeirws ledled Cymru.[4] Er nad oedd gweld y rhan fwyaf o ddysgwyr yn dysgu o bell yn rhan o'r cynllun wrth greu'r lefelau rhybudd, dyluniwyd mesurau dangosyddion y lefelau rhybudd er mwyn gallu asesu lefel y risg yn sgil lledaeniad y coronafeirws ar unrhyw adeg benodol. Mae rhai mesurau yn dynodi bod y cyfyngiadau presennol wedi cael effaith ers eu cyflwyno:

- Ers 8 Ionawr 2021, mae cyfartaledd cyfradd yr achosion a gadarnhawyd fesul 100,000 o bobl, ar sail 7 diwrnod treigl, wedi bod yn gostwng. Ers 14 Ionawr, mae hwn wedi bod yn is na 300 fesul 100,000, sy'n ddangosydd ar gyfer lefel rhybudd 3, ac mae wedi bod yn gostwng yn ystod yr wythnosau ers hynny (gweler y siart isod).

**Achosion fesul 100,000 (nifer saith diwrnod treigl)**




**Ffynhonnell y data:** Iechyd Cyhoeddus Cymru, ar 1 Chwefror 2021

- Amcangyfrif diweddaraf y Grŵp Cynghori Gwyddonol ar Argyfyngau (SAGE) ar gyfer y rhif atgynhyrchu (R) yng Nghymru (a gymeradwywyd gan SAGE ar 28 Ionawr) yw ei fod rhwng 0.7 a 0.9. Dyma'r amcangyfrif swyddogol ar sail y data

y Deyrnas Unedig yn argymell y dylid codi Lefel Rhybudd COVID-19 yn y DU o Lefel 4 i Lefel 5; Datganiad Ysgrifenedig: Trefniadau dychwelyd i'r ysgol a'r coleg; Datganiad Ysgrifenedig: Adolygiad o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) 2020

[3] Disgyblion yn bresennol mewn ysgolion a gynhelir, 7 Medi 2020 tan 29 Ionawr 2021. Gwybodaeth dros dro yw hon, a chaiff ei diwygio ar 10 Chwefror.

[4] Cynllun rheoli'r coronafeirws: lefelau rhybudd yng Nghymru (14 Rhagfyr 2020).


a oedd ar gael hyd at 25 Ionawr. Mae SAGE yn amcangyfrif bod yr epidemig yn lleihau rhwng -6% a -1% y diwrnod.

Fodd bynnag, byddai dangosyddion eraill yn dal i bwyntio at yr angen i gynnal cyfyngiadau lefel rhybudd 4. Ymhlith y dangosyddion a fyddai'n dynodi'r angen am lefel rhybudd 4 mae'r canlynol:

- *Mae cyfradd y profion positif yn uwch na 10% dros saith diwrnod.* Dros y cyfnod 7 diwrnod a ddaeth i ben ar 30 Ionawr, roedd y gyfradd (ar sail 7 diwrnod treigl) yn 10.9%, sydd wedi gostwng ers yr wythnos diwethaf, ond yn parhau'n uchel. Dros y cyfnod 7 diwrnod a ddaeth i ben ar 28 Ionawr, roedd cyfradd y profion positif yn uwch na dangosydd sbarduno cyfyngiadau'r lefel goch (5%) ym mhob rhan o Gymru, ac eithrio Ceredigion. Yn Wrecsam (21.8%) a Sir y Fflint (16.5%) yn y Gogledd yr oedd y profion positif yn dal i fod uchaf[5].

- *Amcangyfrifir bod gan fwy nag 1% o boblogaeth Cymru COVID-19*. Mae data arolwg heintiadau COVID-19 yr ONS[6] (yr astudiaeth wyliadwriaeth sydd hefyd yn nodi heintiadau asymptomatig) yn dynodi bod y cyfraddau heintio wedi lefelu (stopio gostwng) yn ystod yr wythnos ddiwethaf ar 1.43%, ar ôl gostwng yn dilyn y cyfnod brig ychydig wedi'r Nadolig (gweler y siart isod).

**Cymru, amcan o'r % a gafodd brawf positif ar gyfer Covid-19 ers 13 Rhagfyr**





[5] Tablau Iechyd y Cyhoedd Cymru; Adroddiad Iechyd y Cyhoedd ar Awdurdodau Lleol ar gyfer yr wythnos a ddaeth i ben ar 28 Ionawr 2021
[6] Arolwg Heintiadau Coronafeirws yr ONS yng Nghymru, 17-23 Ionawr 2021

**Ffynhonnell y data:** Arolwg Heintiadau Coronafeirws, ONS, 29/01/21

- Yn dilyn cynnydd diweddar, mae'r achosion positif sy'n gydnaws ag amrywiolyn newydd VOC202012/01 wedi lefelu dros yr wythnos ddiwethaf. Mae nifer yr achosion sy'n amlwg yn anghydnaws â'r amrywiolyn newydd wedi gostwng. Mae cyfradd yr achosion lle roedd lefel y feirws yn rhy isel i allu adnabod yr amrywiolyn wedi cynyddu yn ystod yr wythnosau diwethaf. Achosion yw'r rhain lle mae unigolion wedi cael y feirws am gyfnod hirach fel rheol. Gweler y siart isod.

**Amcangyfrifon o ganrannau'r achosion positif sy'n gydnaws ag amrywiolyn newydd y DU ac achosion positif eraill ers 13 Rhagfyr 2020**




Source: Coronavirus (COVID-19) Infection Survey, ONS

The lines and shading represent the modelled trend and 95% credible intervals based on the latest data for cases compatible with the new variant, not compatible with the new variant and those where the virus is too low for the variant to be identifiable. Estimates for the last few days of the series, where no central estimate is shown, have more uncertainty.

- Mae'n bwysig pwysleisio'r ansicrwydd ynghylch y ffigurau hyn. Gan mai cymharol ychydig yw'r profion positif a nodir gan yr arolwg yn gyffredinol, gall y canlyniadau fod yn sensitif i newidiadau bach yn nifer y profion positif hyn. Mae angen gwneud rhagor o waith er mwyn deall y gwahaniaeth rhwng cyfraddau achosion Iechyd Cyhoeddus Cymru a niferoedd yr ONS.

- *Capasiti ysbytai* – Mae nifer y bobl yn ein hysbytai y cadarnhawyd bod ganddynt COVID-19 wedi gostwng dros yr wythnosau diwethaf, ond mae'n dal i fod yn uchel ac yn uwch na chyfnod brig mis Ebrill. Ar 2 Chwefror 2021, roedd 1,138 o gleifion y cadarnhawyd bod ganddynt COVID-19 mewn gwely ysbyty, o gymharu â 1,370 yr un diwrnod yr wythnos flaenorol.

- *Capasiti Unedau Gofal Dwys* – Mae nifer y gwelyau sy'n llawn yn ein hunedau gofal dwys yn gyffredinol (cleifion COVID-19 a chleifion heb COVID-19) wedi dechrau gostwng yn gyson dros y 2-3 wythnos diwethaf, ond yn parhau'n uchel. Ar 2 Chwefror 2021, roedd 113 o gleifion COVID-19 (achosion wedi'u cadarnhau, achosion posibl a chleifion a oedd yn gwella o'r haint) mewn gwely â chymorth anadlu mewnwthiol. Mae hyn yn cymharu â 130 yr un diwrnod yr wythnos flaenorol, a 164 yng nghyfnod brig mis Ebrill 2020.[7]


Mae'r dangosyddion hyn yn ei gwneud yn glir y bydd angen cynnal y duedd hon tuag i lawr yn niferoedd yr achosion o COVID-19 er mwyn lleihau'r risg o orlethu capasiti'r GIG dros y misoedd i ddod. At hyn, mae'r DU yn dal i fod ar ei Lefel Rhybudd 5 sy'n dynodi bod y risg wirioneddol y gallai'r gwasanaethau gofal iechyd gael eu gorlethu yn parhau, a byddai unrhyw lacio yn debygol o gynyddu'r risg hon tra bo'r DU ar y lefel honno.

### *Effaith yr amrywiolyn newydd VOC202012/01*


Mae'r elfennau rydym yn ansicr yn eu cylch o ran VOC202012/01 yn ychwanegu at y risgiau.

Mae VOC202012/01 wedi dod yn fwy cyffredin yng Nghymru, a hwn bellach yw'r amrywiolyn mwyaf amlwg. Fel yr esboniwyd mewn cyngor blaenorol, yn achos rhai profion PCR, gall canlyniad negatif mewn perthynas â'r genyn S fod yn brocsi ar gyfer tystiolaeth o VOC202012/01. Hyd at 23/01/2021, profwyd 28,102 o achosion gan ddefnyddio'r biobrawf sy'n gallu adnabod Methiant ar y Targed Genyn-S (SGTF). Yn achos 12,131 (43%), canfuwyd Methiant ar y Targed Genyn-S. Mae niferoedd a chyfran yr achosion o Fethiant ar y Targed Genyn-S wedi bod yn cynyddu dros amser. Dylid nodi na fydd y rhain yn tueddu i gael eu gweld ym mhrofion ysbytai/piler 1, gan mai dim ond drwy brofion piler 2 Labordai Lighthouse y dônt i'r amlwg, a ddefnyddir ar gyfer samplau profi cymunedol a chartref.

[7] Gweithgarwch a chapasiti'r GIG yn ystod pandemig y coronafeirws (COVID-19), 4 Chwefror 2021




**Ffynhonnell y data:** Iechyd Cyhoeddus Cymru





**Ffynhonnell y data:** Iechyd Cyhoeddus Cymru


Yn achos 75% o'r rheini a brofwyd dros yr 14 diwrnod diwethaf, roedd yna Fethiant ar y Targed Genyn-S. Roedd y ganran lle canfuwyd Methiant ar y Targed Genyn-S yn amrywio o un bwrdd iechyd i'r llall, o 48% (Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe) i 88% (Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr); roedd canran o dros 50% (51-58%) yn yr holl fyrddau iechyd eraill (Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg, Bwrdd Iechyd Addysgu Powys). Dylid nodi bod y profion am y genyn S yn amrywio o un bwrdd iechyd i'r llall. Tua 10% o achosion a brofir mewn perthynas â'r genyn yn y rhan fwyaf o fyrddau iechyd, ond mae'n codi i bron i 40% ym Mwrdd Iechyd Addysgu Powys, ac i bron i 70% ym Mwrdd Iechyd

Prifysgol Betsi Cadwaladr.

Canran yr achosion a brofwyd mewn Labordai Iechyd Lighthouse lle canfuwyd Methiant ar y Targed Genyn-S (procsi am yr amrywiolyn VOC1) dros yr 14 diwrnod diwethaf, fesul Bwrdd Iechyd, o'r rheini a brofwyd mewn perthynas â'r genyn




**Ffynhonnell y data:** Iechyd Cyhoeddus Cymru




**Ffynhonnell y data:** Iechyd Cyhoeddus Cymru

Mae yna dystiolaeth ei bod yn haws trosglwyddo VOC202012/01 na'r feirws "gwyllt" a oedd yn lledaenu'n flaenorol. Mewn amcangyfrifon cynnar o'i drosglwyddadwyedd, darparwyd model gan PHE a oedd yn dynodi y gallai'r amrywiolyn newydd gynyddu cyfradd R gan

ychwanegu o leiaf 0.5,[8] a rhannwyd amcangyfrif arall y gallai'r amrywiolyn hwn fod "56% more transmissible (95% credible interval across three regions 50-74%) than pre-existing variants of SARS-CoV-2".[9] Fodd bynnag, nid yw'n sicr eto faint yn fwy trosglwyddadwy y mae, ac felly ystyriwyd ystod o amcangyfrifon gan SAGE a'r Grŵp Gwyddonol ar Ffliw Pandemig – Modelu yn y modelau a drafodir isod.

Adlewyrchir hyn hefyd yn y cyfraddau uwch o ran ymosodiadau eilaidd mewn perthynas â VOC202012/01 a amcangyfrifir gan Public Health England (PHE), o gymharu â'r feirws "gwyllt":

"*Both when using genomic sequence data directly and SGTF as a proxy, the secondary attack rates estimated from contact tracing data are observed to be higher if the index case has the variant strain, from around 11% to 15% of named contacts. This increase is around 10% to 70% across most age groups and regions where sufficient sequencing data is available. Using the SGTF proxy to give a more comprehensive overview the increase is consistently around 30% to 50%.*"[10]


Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi amcangyfrif cyfradd R ar gyfer VOC202012/01 ac ar gyfer y feirws "gwyllt". Amcangyfrifwyd yr R, sy'n amrywio o un cyfnod i'r nesaf, gan ddefnyddio pecyn EpiEstim, ar sail cymedr o 6.5 diwrnod o ran dosraniad cyfresol amharamedrig, a 2 ddiwrnod o ran gwyriad safonol, yn unol â dulliau amcangyfrifon wythnosol Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae'r ffigur isod yn dangos canlyniad y gwaith hwnnw dros yr wythnosau diwethaf. Mae'r llinell goch yn dangos gwerth R mewn perthynas ag achosion o Fethiant ar y Targed Genyn-S/yr amrywiolyn, o gymharu â'r llinell las ar gyfer y feirws gwreiddiol/lle na chanfuwyd Methiant ar y Targed Genyn-S. Mae'n dangos bod R yn gyson uwch ar gyfer VOC202012/01 yn ystod y cyfnod hwn, ac mai dim ond ar ôl tua 10 Ionawr y gostyngodd islaw 1. Mae'r gostyngiadau yng nghyfradd R dros amser hefyd yn fwy nodedig ar gyfer y feirws "gwyllt" nag ar gyfer yr amrywiolyn.

---

[8] Public Health England, Investigation of novel SARS-CoV-2 variant: Variant of Concern 202012/01, Technical Briefing 1, 21 Rhagfyr 2020, tudalennau 3-4.

[9] N. G. Davies, R. C. Barnard, C. I. Jarvis, A. J. Kucharski, J. Munday, C. A. Pearson, T. W. Russell, D. C. Tully a S. Abbott, Estimated transmissibility and severity of novel SARS-CoV-2 Variant of Concern 202012/01 in England, *medRxiv [rhagargraffiad],* 26 Rhagfyr 2020.

[10] Public Health England, Investigation of novel SARS-COV-2 variant: Variant of Concern 202012/01, Technical Briefing 1, 21 Rhagfyr 2020, tudalennau 3-4.




**Ffynhonnell y data:** Iechyd Cyhoeddus Cymru

Efallai bod y gwahaniaeth mwy rhwng R y math "gwyllt" a'r amrywiolyn pan oedd llai o gyfyngiadau mewn grym yn gynharach yn y cyfnod dan sylw yn awgrymu y gallai unrhyw lacio arwain at gynnydd cyflymach mewn achosion o VOC202012/01, o gymharu â'r feirws "gwyllt".

Mae NERVTAG a SAGE hefyd wedi ystyried dadansoddiad o achosion o Fethiant ar y Targed Genyn-S a lle nad oedd Methiant ar y Targed, ar sail profion Piler 2, sydd wedi ystyried lefelau'r marwolaethau sy'n gysylltiedig â'r amrywiolyn newydd. Mae yna bosibilrwydd realistig bod heintiad VOC202012/01 yn gysylltiedig â risg uwch o farwolaeth o gymharu ag amrywiolynnau eraill. Mae'r risg absoliwt o farw fesul heintiad yn parhau i fod yn isel.[11]

### *Rhagor o ansicrwydd yn sgil Amrywiolynnau eraill sy'n Peri Pryder*

Nodwyd Amrywiolynnau eraill sy'n Peri Pryder yn ystod yr wythnosau diwethaf, a allai arwain at ragor o ansicrwydd a risg – yn benodol y risg y gallai'r amrywiolynnau hyn neu rai eraill leihau effeithiolrwydd y rhaglen frechu os oes lefel o ddihangiad imiwnyddol mewn unrhyw amrywiolyn. Yn benodol, mewn perthynas ag Amrywiolyn sy'n Peri Pryder VOC202012/02, a nodwyd gyntaf yn Ne Affrica, mae yna dystiolaeth sy'n awgrymu bod yr amrywiolyn hwn yn gysylltiedig â lefel drosglwyddo uwch. Mae yna dystiolaeth hefyd bod ymwrthedd uwch gan yr amrywiolyn hwn i blasma ymadfer ac i rai gwrthgyrff monoclonaidd[12]. Mae goblygiadau clinigol yr ymwrthedd uwch hwn yn dal i fod yn aneglur.

Hyd yma, mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi nodi 13 achos o'r amrywiolyn B.1.351 (10

[11] NERVTAG paper on COVID-19 variant of concern B.1.1.7
[12] NERVTAG, SARS-CoV-2 immunity-escape variants, 7 Ionawr 2021; ECDC, Risk Assessment: Risk related to spread of new SARS-CoV-2 variants of concern in the EU/EEA; ECDC, Risk related to the spread of new SARS-CoV-2 variants of concern in the EU/EEA – first update

achos wedi'u cadarnhau a thri achos tebygol) yng Nghymru hyd yma, o'r 90 o achosion sydd wedi eu nodi yn y DU hyd yma.

## 2. Faint o hyblygrwydd fydd ei angen i agor rhagor ar ysgolion?

Gwelwyd cynnydd yn niferoedd yr achosion a gadarnhawyd a'r brigiadau bach o achosion a oedd yn gysylltiedig ag ysgolion yn ystod yr hydref, a hynny wrth i gyfraddau achosion godi yn y gymuned ehangach. Byddai'r ffaith fod ysgolion wedi bod ar agor ar gyfer dysgu wyneb yn wyneb i'r rhan fwyaf o ddysgwyr wedi cyfrannu at y cyfraddau trosglwyddo uwch i raddau yn ystod y cyfnod hwn. Mae'n parhau i fod yn anodd meintioli lefel y trosglwyddiad sy'n digwydd mewn ysgolion yn benodol oherwydd, pan fydd ysgolion ar agor yn llwyr ar gyfer dysgu wyneb yn wyneb, mae rhagor o oedolion yn mynd i'r gwaith, mae rhagor o deithio a chymudo, a rhagor o weithgareddau chwaraeon a gweithgareddau cymunedol bob pen i'r dydd. Fodd bynnag, nid yw'n ymddangos bod ysgolion wedi ysgogi trosglwyddiad yn y gymuned mewn modd anghymesur.[13]

Mae dadansoddiad diweddar gan Iechyd Cyhoeddus Cymru sy'n gysylltiedig ag ysgolion ar draws tri awdurdod lleol hefyd yn dangos nad oedd amrywiaeth sylweddol rhwng y rhan fwyaf o ysgolion o ran lefelau'r achosion yn ystod yr hydref, ac eithrio nifer fach. Bydd y digwyddedd cronnol mewn ysgolion yn fwy amrywiol mewn ysgolion llai. Drwy ystyried lefel digwyddedd cronnol ysgol ochr yn ochr â maint yr ysgol, bydd modd gweld lle mae'r ysgolion mewn ardal sydd â niferoedd anarferol o uchel neu isel o achosion (mewn perthynas â maint yr ysgolion). Dros gyfnodau hirach, mae hyn yn adlewyrchu'r risg gyffredinol yn hytrach nag achosion neu glystyrau unigol.


Mae'r ffigur isod yn dangos y "plotiau twndis" hyn ar gyfer 3 awdurdod lleol, wedi'u dewis yn ôl yr wyddor. Mae ysgolion â niferoedd achosion uchel i'w gweld ym Mhen-y-bont ar Ogwr (un ysgol) ac yng Nghaerffili, lle mae 5 ysgol yn uwch na'r llinell uchaf ar gyfer achosion.

Gallai ail-greu'r plotiau hyn dros amser pan fydd ysgolion ar agor helpu i nodi ym mha awdurdodau lleol y mae'r lefel drosglwyddo mewn ysgolion yn uwch na'r disgwyl, a hefyd pa ysgolion unigol sydd uwchlaw'r llinell, er mwyn rhoi ymyriadau ar waith.


**Plotiau twndis ar gyfer cyfraddau achosion mewn ysgolion, gan gynnwys pob aelod staff sy'n gysylltiedig â'r ysgol a phob disgybl (achosion/maint ysgol*1000) yn ôl maint yr ysgol ar gyfer pob awdurdod lleol (nodir yr ysgolion lle cafwyd achosion YN UNIG), 1 Medi 2020 i 3 Ionawr 2021.** Noder: mae'n bosibl bod y niferoedd unigol yn cwmpasu mwy nag un achos. Ar hyn o bryd, cyfraddau cymharol yw cyfraddau'r ysgolion, nid cyfraddau absoliwt, gan eu bod wedi'u cyfrifo ar sail niferoedd y staff sy'n hysbys, ac felly nad yw'r rolau allweddol eraill wedi'u cyfrif o bosibl. Ffigur bras yw ffigur y terfyn hyder isaf, gan nad oes modd mynd yn is na sero.

[13] TFC: Children and transmission - update paper (17 Rhagfyr 2020); Y Grŵp Cyngor Technegol: amrywiolyn sy'n peri pryder ac addysg yng Nghymru, 7 Ionawr 2021


**Blaenau Gwent**




**Bridgend**




**Caerphilly**




**Ffynhonnell y data:** Iechyd Cyhoeddus Cymru

Gan mai VOC202012/01 yw'r straen amlycaf ledled Cymru erbyn hyn, bydd angen cymryd mwy o gamau nag a welwyd yn ystod tymor yr hydref. Roedd VOC202012/01 yn gallu ymledu yn ne-ddwyrain Lloegr a Llundain er gwaethaf cyfyngiadau a oedd yn ddigon i atal

llinachau SARS-CoV-2 eraill,[14] ar adeg pan oedd lleoliadau ysgol ar agor ar gyfer y rhan fwyaf o ddysgwyr ym mis Tachwedd. Roedd cymhareb uwch o achosion cynnar o'r amrywiolyn ym mis Tachwedd a mis Rhagfyr 2020 ymysg plant a phobl ifanc 0-19 oed nag a oedd mewn grwpiau oedran eraill.[15]

Byddai lleihau'r pwysau ar wasanaethau'r GIG cyn dechrau gwneud mwy o addysgu wyneb yn wyneb yn ein gwarchod ryw gymaint pe bai gweithgarwch ysgolion yn creu'r amodau i'r amrywiolyn newydd dyfu'n esbonyddol yn y gymdeithas.

Gan ystyried ystod o effeithiau posibl y rhaglen frechu, dylid monitro'n ofalus yr effeithiau y mae'r rhaglen frechu yn eu cael ar iechyd. Os mai marwolaethau a derbyniadau i'r ysbyty yw'r ffactorau sy'n effeithio fwyaf ar lacio'r cyfyngiadau, dylid gweld rhagor o hyblygrwydd wrth i'r pwysau ar y GIG leihau.

Wrth ystyried yr effeithiau y mae COVID-19 yn eu cael wrth lacio'r cyfyngiadau, bydd yn bwysig ystyried hefyd effeithiau tymor hirach posibl cymhlethdodau ar ôl bod yn yr ysbyty yn sgil COVID-19 yn ogystal â 'COVID hir'. Defnyddir y term 'COVID hir' fel arfer i ddisgrifio arwyddion a symptomau sy'n parhau neu'n datblygu ar ôl COVID-19 acíwt. Mae'n cynnwys 'COVID symptomatig parhaus' (rhwng 4 a 12 wythnos) a 'syndrom ôl-COVID-19' (12 wythnos neu ragor). Mae astudiaeth sydd wedi'i rhagargraffu yn nodi'r canlynol: "*Individuals discharged from hospital following COVID-19 face elevated rates of multi-organ dysfunction compared with background levels, and the increase in risk is neither confined to the elderly nor uniform across ethnicities. The diagnosis, treatment and prevention of PCS [post-COVID syndrome] require integrated rather than organ- or disease-specific approaches. Urgent research is required to establish risk factors for PCS.*" Mae TAG wedi cyhoeddi cyngor mwy manwl yn ddiweddar ar 'COVID hir', sy'n ymchwilio i'r sail dystiolaeth gyfredol.[16]

Byddai mesurau allweddol fel lefelau achosion isel, rhif R sy'n is nag 1, cyfradd profion positif is, a llai o welyau llawn mewn ysbytai ac mewn unedau gofal dwys yn caniatáu ar gyfer dychwelyd i ddysgu wyneb yn wyneb mewn ysgolion, ac efallai ar gyfer llacio cyfyngiadau eraill. Fodd bynnag, mae'r lefel bresennol o ansicrwydd, yn enwedig o ran pa mor drosglwyddadwy yw'r amrywiolyn newydd, yn golygu na ellir nodi mewn ffordd ddibynadwy yr union lefelau a fyddai'n caniatáu ar gyfer llacio o'r fath ar hyn o bryd.

Mae rhagor o fodelu wedi'i gomisiynu gan Brifysgol Abertawe i edrych ar sefyllfaoedd tebyg yng Nghymru. Byddai hyn yn edrych ar opsiynau eang yn y lle cyntaf.

[14] Virological, Lineage-specific growth of SARS-CoV-2 B.1.1.7 during the English national lockdown (30 December 2020) ; Public Health England, Investigation of novel SARS-CoV-2 variant: Variant of Concern 202012/01, Technical Briefing 3, ffigur 4
[15] Imperial, Transmission of SARS-CoV-2 Lineage B.1.1.7 in England: Insights from linking epidemiological and genetic data (31 December 2020), tudalen 7.
[16] Daniel Ayoubkhani, Kamlesh Khunti, Vahé Nafilyan, Thomas Maddox, Ben Humberstone, Syr Ian Diamond, Amitava Banerjee, Epidemiology of post-COVID syndrome following hospitalisation with coronavirus: a retrospective cohort study, *medRxiv [rhagargraffiad]*, 15 Ionawr 2021; Y Grŵp Cyngor Technegol: COVID hir, 3 Chwefror 2021.

### 3. Pa fodelau o ran trefniant ysgolion fyddai'n sicrhau cydbwysedd rhwng y risgiau a'r manteision a pha ymyriadau anfferyllol neu fesurau lliniaru ychwanegol fyddai'n ddefnyddiol?

Yn flaenorol, mae lleoliadau ysgol yng Nghymru wedi ailagor fesul cam, gan roi cyfle i'r disgyblion ailgydio yn eu dysgu yn dilyn y cyfnod cyntaf o gyfyngiadau. Fe wnaeth ysgolion cynradd a blynyddoedd 7 ac 8 ddychwelyd yn ystod ail wythnos y cyfnod atal byr. Gallai fod yna rai manteision o ran lliniaru'r effaith ar drosglwyddiad y feirws pe byddai ysgolion yn agor yn rhannol yn unig, er enghraifft pe byddai modd cynnal trefniadau cadw pellter corfforol ychwanegol neu grwpiau cyswllt llai o faint, lle bo modd.

*Plant oedran ysgol*

Mae cyfraddau achosion a gadarnhawyd ymysg plant 11 oed neu iau yng Nghymru bob amser wedi bod yn gymharol is na'r rheini ymysg plant hŷn, gan awgrymu y gallai caniatáu i blant cynradd ddychwelyd i'r ysgol gael llai o effaith na chaniatáu i blant ysgolion uwchradd ddychwelyd[17].

Canfu gwaith ymchwil[18] sydd ar fin dod i law gan Brifysgol Abertawe/SAIL, a edrychodd ar achosion o COVID-19 a gadarnhawyd ymhlith staff a disgyblion a oedd yn mynychu ysgolion yng Nghymru rhwng Medi a Rhagfyr 2020, wedi ystyried oedran, rhyw, ardaloedd gwledig, mathau ysgolion, i ba raddau yr oedd aelwydydd yn agored i achosion, a niferoedd staff/disgyblion mewn ysgolion/aelwydydd, fod niferoedd yr achosion yn ystod yr 14 diwrnod blaenorol yn yr ysgol yn gysylltiedig â risg is o brofi'n bositif. Mewn gwrthgyferbyniad, roedd achos o fewn aelwyd aelod o staff neu ddisgybl yn cynyddu'n sylweddol ei risg o brofi'n bositif. Roedd yr ymchwilwyr o'r farn bod hyn yn dynodi effeithiolrwydd y mesurau lliniaru a oedd ar waith mewn ysgolion ar y pryd, gan gynnwys polisïau ar hunanynysu lle nodid achosion.

Mewn gwrthgyferbyniad, roedd nifer yr achosion ymhlith disgyblion o fewn yr un grŵp blwyddyn yn gysylltiedig iawn yn ystadegol â thebygolrwydd uwch o brofi'n bositif (y gellid ei ystyried yn brocsi ar gyfer achosion o fewn grwpiau cyswllt mewn ysgolion), gan awgrymu bod yr haint yn cael ei drosglwyddo i ryw raddau o ddisgybl i ddisgybl.

Nododd adolygiad diweddar o achosion sy'n gysylltiedig ag ysgolion yng Nghwm Taf Morgannwg[19] nifer o bwyntiau, gan gynnwys:

- *Yn achos tua hanner yr achosion, daliwyd y feirws o fewn y gymuned, ac fel rheol*

---


[17] Canfu adroddiad cyflym diweddar gan *Eurosurveillance,* a oedd yn edrych ar achosion mewn ysgolion cynradd yn Norwy rhwng Awst a Thachwedd 2020, dystiolaeth isel iawn o drosglwyddo COVID-19 gan blant yn yr ysgol yn ystod y cyfnod hwn. Dylid nodi bod hyn yng nghyd-destun niferoedd isel yn y gymuned i ddechrau (cynyddodd cyfradd yr achosion a gadarnhawyd ymhlith plant wrth i'r cyfraddau cyffredinol godi), a bod y mesurau a oedd ar waith mewn ysgolion i atal a rheoli'r haint yn cynnwys cadw pellter corfforol. Gweler Lin T. Brandal er al., 'Minimal transmission of SARS-CoV-2 from paediatric COVID-19 cases in primary Schools, Norway, August to November 2020', *Eurosurveillance,* 7 Ionawr 2021.
[18] Staff-Pupil SARS-CoV-2 Infection Pathways in Schools: A Population Level Linked Data Approach, ar fin dod i law fel rhagargraffiad, Chwefror 2021.
[19] Review of transmission of Covid-19 associated with schools in Cwm Taf Morgannwg, 8 Ionawr 2021

*gan achos cyfeirio o fewn yr un aelwyd.*

- *Lle nodwyd achosion o fewn lleoliad ysgol, maent fel rheol yn gysylltiedig â grwpiau cymdeithasol/ffrindiau llai y tu mewn a'r tu allan i'r ysgol.*
- *Nid oedd modd nodi'n glir ffynhonnell rhai achosion. Nid oes tystiolaeth glir o drosglwyddo'r feirws yn ehangach o fewn yr ysgol y tu hwnt i'r grwpiau cymdeithasol/ffrindiau llai hyn.*
- *Mae cyfraddau uwch o achosion mewn ysgolion yn gysylltiedig â lefelau trosglwyddo uwch yn y gymuned.*
- *Yn gyffredinol, roedd nifer yr achosion a'r cysylltiadau yn dal i fod yn isel, fel cyfran o'r holl ddisgyblion a staff, sy'n dynodi bod mesurau rheoli effeithiol ar waith.*

*Gweithlu ysgolion*

Dylid hefyd ystyried trosglwyddiad y feirws mewn perthynas â gweithlu ysgolion. Roedd 43% o'r achosion a gadarnhawyd mewn cysylltiad ag ysgolion yng Nghymru rhwng 1 Medi a 23 Rhagfyr yn achosion ymysg staff[20]. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi cynnal dadansoddiad o'r digwyddedd cronnol o achosion ymhlith staff, yn ôl math o ysgol,[21] o gymharu â'r digwyddedd cronnol o fewn y boblogaeth gyfan, yn ôl grŵp oedran, yn ystod y cyfnod rhwng 1 Medi a 31 Rhagfyr 2020 (er bod 713 o'r 3,440 o achosion ymhlith staff heb eu cynnwys yn y dadansoddiad hwn, gan nad oedd eu rôl wedi'i chynnwys yn y data fel rhai a oedd yn agored i'r feirws – gweler isod):




**Ffynhonnell y data:** Iechyd Cyhoeddus Cymru

Yn achos staff addysgu 20 i 29 oed mewn ysgolion cynradd, mae yna gynnydd bychan yn y digwyddedd cronnol, â bron i 8% yn profi'n bositif yn ystod y cyfnod, o gymharu â thua 6% yn yr un grŵp oedran o fewn poblogaeth Cymru. Fel arall, yn achos ysgolion cynradd,

[20] Y Grŵp Cyngor Technegol: amrywiolyn sy'n peri pryder ac addysg yng Nghymru, 7 Ionawr 2021
[21] Mae'r diffiniadau o fathau o ysgolion yn dilyn Rhestr gyfredol Llywodraeth Cymru o ysgolion yng Nghymru.

uwchradd a chanol, mae'r digwyddedd cronnol ymhlith staff addysgu yr un fath ag yng ngweddill poblogaeth Cymru, neu'n is. Mae'r digwyddedd cronnol yn uwch ymhlith staff grwpiau oedran 20-49 mewn ysgolion arbennig nag yng ngweddill poblogaeth Cymru.

Mae Tabl 1 isod yn dangos crynodeb o'r digwyddedd cronnol ymysg staff a disgyblion, o gymharu â gweddill poblogaeth Cymru. Mae'r digwyddedd cronnol yn is yn achos staff ysgolion canol ac uwchradd o gymharu â grwpiau oedran 20-65 gweddill poblogaeth Cymru, ac yn uwch yn achos ysgolion cynradd ac arbennig, ac mae'r gwahaniaethau hyn yn arwyddocaol yn ystadegol. Roedd y gyfradd ymosodiadau gyffredinol ymysg disgyblion ysgol yn is nag yn achos staff ysgolion. Roedd y gyfradd ymosodiadau mewn ysgolion arbennig yn uwch nag mewn ysgolion cynradd ac uwchradd.

**Table 1. Attack rate in educational school staff, pupils and Welsh population aged 20 to 65. Case numbers and denominators shown. Time period 01/09/20 to 31/12/20**

| | Middle School | | Primary School | | Secondary School | | Special School | | Wales |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | STAFF | PUPIL | STAFF | PUPIL | STAFF | PUPIL | STAFF | PUPIL | Adults 20-65 |
| Cases | 91 | 226 | 1685 | 1967 | 709 | 1978 | 233 | 73 | 94692 |
| Denom | 2029 | 20272 | 27160 | 248250 | 17045 | 170590 | 3292 | 5138 | 1825127 |
| Rate | 4.48 | 1.11 | 6.20 | 0.79 | 4.16 | 1.16 | 7.08 | 1.42 | 5.19 |
| Upper CI | 5.39 | 1.26 | 6.50 | 0.83 | 4.46 | 1.21 | 7.95 | 1.74 | 5.22 |
| Lower CI | 3.58 | 0.97 | 5.92 | 0.76 | 3.86 | 1.11 | 6.20 | 1.10 | 5.16 |

**Ffynhonnell y data:** Iechyd Cyhoeddus Cymru

Oherwydd diffyg data priodol am niferoedd y cyflogeion a oedd yn agored i'r feirws, ar hyn o bryd ni all Iechyd Cyhoeddus Cymru amcangyfrif cyfraddau'r ymosodiadau ymysg grwpiau staff pwysig eraill mewn lleoliadau ysgolion, ac felly nid yw staff arlwyo, glanhawyr a gofalwyr wedi'u cynnwys yn yr amcangyfrifon hyn. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru am geisio mynd i'r afael â'r diffyg pwysig hwn yn ein gwybodaeth.

Yn ogystal, fel y nodir uchod, canfu gwaith ymchwil Prifysgol Abertawe/SAIL i achosion o COVID-19 a gadarnhawyd ymysg staff ysgolion yng Nghymru rhwng Medi a Rhagfyr 2020, wedi ystyried ffactorau perthnasol eraill, fod niferoedd yr achosion yn ystod yr 14 diwrnod blaenorol yn yr ysgol, yn gysylltiedig â risg is i staff o brofi'n bositif.

Nododd yr adolygiad o'r wybodaeth am achosion a oedd yn gysylltiedig ag ysgolion yng Nghwm Taf Morgannwg[22] rai pwyntiau penodol ynghylch achosion a oedd yn gysylltiedig â staff, gan gynnwys y canlynol:

[22] Review of transmission of Covid-19 associated with schools in Cwm Taf Morgannwg, 8 Ionawr 2021

- *Canfuwyd bod rhannu ceir heb wisgo mygydau addas [nid yw'r adolygiad hwn yn gwahaniaethu'n glir rhwng gorchuddion wyneb, mygydau a mathau eraill o gyfarpar diogelu personol] wedi cyfrannu at ledaenu'r haint.*
- *Canfuwyd bod gan oruchwylwyr amser cinio, goruchwylwyr clybiau brecwast a glanhawyr sawl swydd, gan gynnwys mewn sawl ysgol wahanol, ac mewn rhai achosion, fel staff gofal mewn cartrefi gofal preswyl. Mae nifer o achosion wedi'u cysylltu â staff addysgu o asiantaethau, sy'n gweithio mewn mwy nag un lleoliad ysgol.*

*[...]*

- *Achosion o beidio â chadw at fesurau rheoli: nid yw mesurau gwisgo cyfarpar diogelu personol a chadw pellter cymdeithasol yn cael eu dilyn mewn ysgolion cynradd ymysg staff a disgyblion fel y maent mewn ysgolion uwchradd. Gallai hyn fod yn ffactor sydd wedi cyfrannu at nifer yr achosion positif ymysg staff a nodwyd mewn ysgolion cynradd.*
- *Dylid ystyried y posibilrwydd bod staff wedi trosglwyddo'r haint i'w gilydd yn achos y nifer uwch o achosion ymysg staff ysgolion arbennig a chynradd. Yn y lleoliadau hyn, mae mwy nag un aelod staff ym mhob ystafell ddosbarth fel rheol, gan fod cynorthwywyr addysgu a swyddogion cymorth dysgu yno hefyd.*

Mewn papur blaenorol gan TAG, trafodwyd tystiolaeth o heintiadau COVID-19 ymysg athrawon a'r gweithlu addysg yn Lloegr a'r Alban[23]. Ers y papur hwnnw, mae dadansoddiad ychwanegol wedi'i gyhoeddi gan yr ONS o farwolaethau ymysg y boblogaeth o oedran gweithio ar draws Cymru a Lloegr[24]. Mae'r dadansoddiad hwn yn awgrymu bod y risg o farwolaeth yn sgil COVID-19 ar gyfer dynion a menywod sy'n gweithio mewn lleoliadau addysgu ac addysgol yn debyg i'r risg mewn galwedigaethau proffesiynol eraill, ac yn is na chyfraddau'r marwolaethau yn sgil COVID-19 o fewn y boblogaeth ehangach.

Mae dadansoddiad yr ONS yn dynodi bod y cyfraddau marwolaethau sy'n gysylltiedig â COVID-19 a gofrestrwyd rhwng 9 Mawrth a 28 Rhagfyr ymysg dynion a menywod o oedran gweithio (20-64 oed) a oedd yn weithwyr addysgu ac addysgol proffesiynol (18.4/9.8 fesul 100,000 ar gyfer gwrywod/benywod) yn sylweddol is yn ystadegol na chyfraddau'r marwolaethau sy'n gysylltiedig â COVID-19 ymysg y rheini o'r un oedran a'r un rhyw o fewn y boblogaeth ehangach (31.4/16.8 fesul 100,000). O ystyried yr holl weithwyr addysgu ac addysgol proffesiynol gyda'i gilydd, nid oedd cyfraddau'r marwolaethau a oedd yn gysylltiedig â COVID-19 yn sylweddol wahanol yn ystadegol i'r cyfraddau mewn 'galwedigaethau proffesiynol' eraill (17.6/12.8 fesul 100,000 ar gyfer gwrywod/benywod).

Ar gyfer rhai proffesiynau addysgu ac addysgol penodol, dim ond ar gyfer gweithwyr addysg proffesiynol uwchradd yr oedd modd i'r ONS gyfrifo cyfradd ddibynadwy. Nid oedd cyfraddau'r marwolaethau a oedd yn gysylltiedig â COVID-19 ymysg gweithwyr addysgu proffesiynol uwchradd (39.2/21.2 fesul 100,000 ar gyfer gwrywod/benywod) yn sylweddol wahanol yn ystadegol i'r cyfraddau a oedd o'r un oedran a rhyw yn y boblogaeth ehangach.

[23] Y Grŵp Cyngor Technegol: amrywiolyn sy'n peri pryder ac addysg yng Nghymru, 7 Ionawr 2021

[24] ONS, Coronavirus (COVID-19) related deaths by occupation, England and Wales: deaths registered between 9 March and 28 December 2020, a ryddhawyd ar 25 Ionawr 2021

Fodd bynnag, roedd cyfradd y marwolaethau a oedd yn gysylltiedig â COVID-19 ymysg gweithwyr addysg proffesiynol uwchradd a oedd yn wrywod yn sylweddol uwch yn ystadegol na chyfradd y marwolaethau a oedd yn gysylltiedig â COVID-19 ymysg dynion o'r un oedran mewn galwedigaethau proffesiynol. Mae hyn yn awgrymu y gallai dynion sy'n gweithio ym maes addysg uwchradd fod mewn perygl mwy o farw yn sgil COVID-19 na dynion tebyg mewn galwedigaethau proffesiynol eraill.

Roedd y dadansoddiad hwn gan yr ONS yn ystyried oedran a rhyw, ond nid ffactorau eraill megis grŵp ethnig, ble roedd pobl yn byw, amddifadedd, na galwedigaeth eraill a oedd yn byw yn yr un aelwyd. Mae angen gofal, felly, wrth ddehongli'r canfyddiadau gan nad yw'r gwahaniaethau a gofnodir yn ymwneud o reidrwydd â'r gwahaniaethau yn y lefelau risg sy'n gysylltiedig â galwedigaeth yn unig. Mae'r data galwedigaethol yn seiliedig ar ddwy ffynhonnell: tystysgrifau marwolaeth ar adeg cofrestru'r farwolaeth ac arolwg blynyddol 2019 o'r boblogaeth (at ddiben niferoedd poblogaeth). Mae'n bosibl nad yw'r rhain yn gwbl gywir: efallai bod yr alwedigaeth a gofnodir ar farwolaeth rhywun yn adlewyrchu prif alwedigaeth ei fywyd, a allai fod yn wahanol i'r swydd oedd ganddo adeg ei farwolaeth; a gallai cynnydd neu ostyngiad cyflym yn nifer y gweithwyr mewn galwedigaeth(au) b/penodol ers 2019 effeithio ar y dadansoddiad.

O ran monitro heintiadau COVID-19 i raddau mwy ymysg staff, gallai defnyddio Dyfeisiau Llif Unffordd i brofi staff asymptomatig yn rheolaidd, mewn rhai lleoliadau lle nad yw'n bosibl cadw pellter cymdeithasol bob amser efallai, megis mewn ysgolion cynradd, fod yn un ffordd o asesu effeithiolrwydd yr ymyriadau atal trosglwyddo sydd ar waith yn y lleoliadau hynny. Gallai hyn hefyd fod yn ffordd o nodi cyfran o unigolion heintiedig asymptomatig neu gyn-symptomatig a fyddai o bosibl heb eu canfod fel arall. Gan dybio y byddai'r unigolion hyn yn hunanynysu ar unwaith, byddai hyn yn helpu i liniaru'r trosglwyddiad sy'n ymwneud â gweithlu'r ysgol i ryw raddau. Dylai diben unrhyw ddull profi ac achos defnydd gael ei ddiffinio'n glir, yn ogystal â'r dulliau ar gyfer cipio a choladu data yn electronig a rhoi adroddiad arno.

Gellid lleddfu effeithiau ehangach cymysgu a throsglwyddo'r feirws drwy ddychwelyd yn rhannol os bydd hynny'n golygu bod llai o oedolion yn cynyddu nifer eu cysylltiadau ac yn cymysgu.

***Mesurau i atal a rheoli'r haint***

Mae TAC eisoes wedi rhoi cyngor[25] a lywiodd ganllawiau Llywodraeth Cymru ar y mesurau atal a rheoli sydd i'w rhoi ar waith mewn ysgolion. Yn ychwanegol at hynny, mae angen i TAG roi rhagor o ystyriaeth i waith diweddaraf SAGE ar bwysigrwydd cymharol rhai mesurau i atal a rheoli'r haint mewn gweithleoedd dan do, gan gynnwys mesurau awyru a gorchuddion wyneb[26]. Mae TAG hefyd wedi rhoi cyngor yn ddiweddar ar y posibilrwydd o

[25] Y Grŵp Cyngor Technegol: cyngor ar ddychwelyd i'r ysgol, 7 Gorffennaf 2020; Y Grŵp Cyngor Technegol: adolygiad o dystiolaeth ar blant a phobl ifanc o dan 18 oed mewn darpariaeth cyn ysgol, ysgol neu goleg yn dilyn y cyfnod atal byr, 9 Tachwedd 2020
[26] SAGE, Application of physical distancing and fabric face coverings in mitigating the B117 variant SARS-CoV-2 virus in public, workplace and community, a gyhoeddwyd ar 29 Ionawr 2021.

ddefnyddio dyfeisiau i lanhau'r aer[27]. Mae ysgolion yn weithleoedd ac mae angen adolygu'r un hierarchaeth o fesurau rheoli risgiau, yn yr un modd â gweithleoedd eraill, yng ngoleuni amrywiolyn mwy trosglwyddadwy[28]. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi gwneud yr argymhellion penodol canlynol ynghylch mesurau allweddol i atal a rheoli'r haint mewn ysgolion:

- *O fewn ysgolion, mae angen cryfhau ymhellach y mesurau rheoli allweddol. Mae'r rhain yn cynnwys lleihau'r niferoedd sy'n cymysgu yn ystod cyfnod penodol ac mewn lleoedd penodol; lleihau maint swigod; cadw pellter cymdeithasol; hylendid dwylo a defnyddio gorchuddion wyneb yn unol â'r canllawiau cyfredol.*
- *Rhaid parhau i ddilyn y cyfyngiadau ar gyfer y tu allan i'r ysgol yn llym, gan ei gwneud yn glir mai dim ond o fewn lleoliad yr ysgol y mae "swigod ysgol" yn berthnasol.*
- *Dylid pwysleisio pwysigrwydd osgoi trosglwyddo'r feirws rhwng athrawon, yn ogystal â rhwng staff a disgyblion.*

Mae'r adolygiad o drosglwyddiad COVID-19 mewn achosion sy'n gysylltiedig ag ysgolion yng Nghwm Taf Morgannwg, a gynhaliwyd gan ymgynghorydd yn Nhîm Iechyd y Cyhoedd Cwm Taf Morgannwg, yn gwneud cyfres debyg iawn o argymhellion ar gyfer gwelliannau[29].

Drwy agor ysgolion fesul cam ar gyfer rhagor o ddysgu wyneb yn wyneb, gellir monitro'n ofalus sut effaith y byddai llacio'r cyfyngiadau hyn yn ei chael ar drosglwyddiad y feirws. Gan ystyried bod VOC202012/01 yn fwy trosglwyddadwy, byddai monitro effaith unrhyw newid dros gyfnod sy'n caniatáu i effaith newid diffiniedig gael ei hadolygu yn rhoi cyfle i sylwi ar gynnydd yn yr R dros 1 neu ddangosyddion allweddol eraill, gan ailosod cyfyngiadau os yw hynny'n angenrheidiol[30].

### *Effeithiau addysgol ac o ran lles*

Mae'r papur hwn yn canolbwyntio ar effeithiau uniongyrchol COVID ar drefniadau ysgolion. Fodd bynnag, dylid hefyd ystyried y manteision o ran addysg a llesiant a fyddai'n deillio o ddychwelyd yn rhannol neu ailagor fesul cam, gan eu cydbwyso'n ofalus yn erbyn y risgiau sy'n ymwneud â lledaeniad y feirws. Wrth wneud hynny, dylid blaenoriaethu grwpiau blynyddoedd iau sy'n ei chael yn anos ymgymryd â dysgu hunangyfeiriedig ac sydd wedi dangos cyfraddau is o achosion a gadarnhawyd o'r haint, yn ogystal â disgyblion hŷn sy'n astudio cyrsiau TGAU a Lefel A, y bydd i ganlyniadau eu hastudiaethau oblygiadau sylweddol ar eu cyfleoedd mewn bywyd. Mae'r casgliadau cyffredinol gan SAGE ym mis

[27] SAGE, Potential application of air cleaning devices and personal decontamination to manage transmission of COVID-19, 4 Tachwedd 2020; Y Grŵp Cyngor Technegol: dyfeisiau glanhau aer, 3 Chwefror 2021
[28] Y Grŵp Cyngor Technegol: amrywiolyn sy'n peri pryder ac addysg yng Nghymru, 7 Ionawr 2021
[29] Review of transmission of Covid-19 associated with schools in Cwm Taf Morgannwg, 8 Ionawr 2021. Yn yr un modd, mae model o drosglwyddo o fewn ysgol mewn rhagargraffiad diweddar, Ryan S. McGee et al., Model-driven mitigation measures for reopening schools during the COVID-19 pandemic', *medRxiv [rhagargraffiad],* 26 Ionawr 2021, yn atgyfnerthu rôl rhannu myfyrwyr i garfanau fel mesur i leihau trosglwyddo o fewn ysgol.
[30] Daethpwyd i gasgliadau tebyg mewn cyngor diweddar a ddarparwyd i Lywodraeth yr Alban: Coronavirus (COVID-19) Advisory Sub-Group on Education and Children's Issues – advice on phased return to in-person learning in schools and early learning and childcare (ELC) settings, 3 Chwefror 2021.

Tachwedd 2020 yn parhau i fod yn grynodeb buddiol o'r dystiolaeth ehangach o'r effeithiau allweddol ar addysg a llesiant pan fo plant yn methu cael mynediad at ddysgu wyneb yn wyneb mewn ysgolion:

*1. Mae cau ysgolion yn peryglu deilliannau addysgol, yn enwedig ar gyfer disgyblion difreintiedig (Hyder Uchel). Mae anghydraddoldeb sy'n bodoli eisoes (Hyder Uchel) a bylchau o ran cyrhaeddiad (Hyder Isel/Canolig) eisoes yn gwaethygu. Mae cyfleoedd i sylwi'n gynnar ar broblemau newydd o ran y dysgu hefyd yn cael eu colli pan fo ysgolion wedi'u cau (Hyder Uchel).*

*2. Mae cau ysgolion yn amharu ar iechyd corfforol a meddyliol plant. Mae'r dystiolaeth yn awgrymu yr effeithir ar iechyd meddwl y glasoed yn arbennig (Hyder Canolig). Mae risg hefyd i ddeilliannau gwybyddol, cymdeithasol ac emosiynol (Hyder Canolig) yn ogystal ag iechyd corfforol (Hyder Isel).*

*3. Mae cau ysgolion yn cael effaith arbennig o niweidiol ar blant sy'n agored i niwed oherwydd bod ganddynt lai o fynediad at wasanaethau hanfodol (Hyder Uchel). Mae ffactorau eraill sy'n gysylltiedig â'r cyfyngiadau ac sy'n peri straen i blant a rhieni, fel ansicrwydd economaidd-gymdeithasol, hefyd yn debygol o gael eu dwysáu (Hyder Canolig).*

*4. Gall cyfnodau estynedig o ddysgu o bell arwain at ddeilliannau dysgu gwaeth, er bod rhai ffynonellau'n awgrymu y gallai deilliannau andwyol byrdymor fod yn gyfyngedig (Hyder Isel).*

Mae TAC yn gweithio gyda swyddogion addysg yn Llywodraeth Cymru i feithrin gwell dealltwriaeth o'r effeithiau ar addysg a llesiant plant yng Nghymru.

Mae cyngor presennol TAC hefyd wedi ystyried yr effeithiau ehangach ar addysg a llesiant plant sy'n deillio o gyfnodau lle bydd ysgolion yn gweithredu o bell, yn ogystal â ffyrdd posibl o liniaru rhai o'r effeithiau hyn os ydynt yn rhai negyddol, a'r cyfyngiadau sy'n ymwneud â rhai o'r mesurau lliniaru hyn.[31] Fodd bynnag, mae SAGE ac is-grŵp SAGE sy'n edrych ar blant wrthi'n edrych ymhellach ar hyn. Mae'r papur i fod i gael ei ddychwelyd at SAGE ym mis Chwefror a bydd angen ystyried hyn ochr yn ochr â thystiolaeth newydd.

***Cynllunio a chyfathrebu***

Bydd hefyd yn bwysig ystyried amserlen gynllunio ar gyfer newidiadau i drefniadau ysgolion. Mae'r lefel uchel o ansicrwydd ar hyn o bryd yn golygu bod posibilrwydd y bydd angen i gyfnodau o ddysgu wyneb yn wyneb neu ddysgu cyfunol ddigwydd bob yn ail gyda chyfnodau o ddysgu o bell am y tro. Mae mynd i'r afael â hyn ar sail cynllun penodol yn debygol o arwain at well canlyniadau na dull ymatebol.

Er mwyn ystyried amserlen gynllunio hirach, bydd angen cryfhau'r dull ar gyfer monitro effeithiau sut mae ysgolion yn gweithredu mewn perthynas â throsglwyddiad a hefyd mewn perthynas ag iechyd, addysg a llesiant ehangach. Mae'r gwaith o gryfhau'r broses fonitro wedi dechrau ac mae'n cynnwys Cell Wybodaeth COVID, is-grŵp Niwed Economaidd-gymdeithasol TAG ac is-grŵp Plant ac Ysgolion TAG.

Wrth i gynlluniau gael eu rhoi ar waith bydd yn bwysig cydnabod y bydd y boblogaeth

[31] Y Grŵp Cyngor Technegol: crynodeb o dystiolaeth ar gostau a manteision mesurau i fynd i'r afael â Covid-19 a chamau lliniaru posibl, 25 Tachwedd 2020

ehangach ychydig yn nerfus wrth i ysgolion ailagor. Rhaid cydnabod hefyd bod pryderon ynghylch addysg a llesiant plant, yn ôl arolwg ymgysylltu â'r cyhoedd COVID-19 diweddaraf Iechyd Cyhoeddus Cymru.[32] Dylid nodi mai ffigurau poblogaeth yw'r rhain, ac nad ydynt yn gyfyngedig i rieni. Mae'r rhain hefyd yn ddata hunangofnodedig, gyda sampl cymharol fach. Er hynny, mae'r canfyddiadau hyn yn dangos efallai bod gan Lywodraeth Cymru rôl bwysig i'w chwarae o hyd o ran cyfleu'r rhesymau dros benderfyniadau pellach ar drefniadau ysgolion, gyda rhieni, athrawon a phobl ifanc mewn golwg.

[32] PHW COVID-19 public engagement survey ar gyfer y cyfnod rhwng 18 a 24 Ionawr 2021, a gyhoeddwyd ar 29 Ionawr 2021, tt. 8, 14.